Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR
PWLLHELI

Mai 2025

Lliw Newydd Y Tŵr!

Cyfrifoldeb mawr yw dewis lliw i adeilad , a dyna pam gofynwyd i bawb am eu barn. Diolch i bawb fwriodd bleidlais ac a gysylltodd gyda'u sylwadau. Bu'r ymateb yn ddefnyddiol dros ben gyda dros 900 yn pleidleisio. Barn y mwyafrif helaeth oedd y dylid cael lliw llawen sydd yn sefyll allan ar y stryd fawr, ac y dylid osgoi llwyd a glas tywyll. Melyn oedd y lliw mwyaf poblogaidd- ac er mwyn cadw at liwiau swyddogol Y Tŵr dewiswyd lliw euraidd cyfoethog. Dewiswyd dau liw arall er mwyn amlygu manylder pensaerniol Y Tŵr – mymryn o liw tywyll sydd yn cydfynd a lliw y logo, ac ychydig o liw golau gan gadw at arddull pensaerniol yr adeilad.

Pêl Fonws Menter y Tŵr

Diolch o galon i Dawn Sweetman-Jones sydd yn cynnal Pel Fonws wythnosol er mwyn casglu arian at Y Tŵr. O fewn oriau i'w hysbysebu gwerthwyd pob riif. Dyma ffordd syml ac effeithiol o gasglu arian wrth i bawb ddewis rhif am £2 yr wythnos, a talu am floc o 10 wythnos oflaen llaw. Rhif pel fonws y loteri genedlaethol yw'r rhif buddugol yn wythnosol.

Ffansi ennill mwg a mat diod Menter y Tŵr?

Ffansi ennill mwg a mat diod Menter y Tŵr?
Rydym yn awyddus i barhau i gasglu hanesion difyr am Y Tŵr dros y blynyddoedd, Gyrrwch eich atgofion ac unryw luniau o ddigwyddiadau yn Y Tŵr dros y blynyddoed atom gyda'ch enw a rhif ffon am gyfle i ennill mwg a mat diod a chael eich stori a'ch llun ar y wefan !
Ebostiwch ytwrpwllheli@gmail.com

Diweddariad o'r gwaith ar yr adeilad

Wrth deithio ar hyd Stryd Fawr Pwllheli ers dechrau'r flwyddyn mae'n anodd dychmygu beth yn union sydd yn mynd ymlaen y tu ol i'r bordiau taclus sydd yn gorchuddio y tu blaen. Dim ond canmol sydd wedi bod i waith arbenigol a gofalus cwmni adeiladu D R Williams. Gyda'r adeilad wedi ei gau i'r cyhoedd ac yn safle adeiladu, cawn ein diweddaru yn rheolaidd gyda lluniau calonogol o'r gwaith toi, y gwaith plwm, landeri, y ffenestri dormer a'r velux newydd a'r ailddefnyddio ac adnewyddu popeth lle mae posib.

Y to yn edrych yn dda wedi ei orffen.

Adnewyddu a paentio'r ffenestri.

Gosod landeri a gwteri newydd.

Ffenestri dormer y llawr uchaf wedi eu cwblhau

Gwirfoddoli

Cofiwch mae digon o gyfleoedd i helpu gyda'r fenter. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i yTŵrpwllheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Criw Y Tŵr x

www.ytwr .cymru

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government